Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gareth Owen
Ysgol Gynradd Kingsland
Caergybi
Ynys Môn
LL65 2TH

24/07/2025

Annwyl Gareth Owen

**Ymweliad Interim:** Gorffennaf 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Kingsland yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

Yn ystod yr ymweliad cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau
- siarad â disgyblion
- cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar waith disgyblion
- craffu ar ddogfennaeth

**Ffocws yr ymweliad**

**Gwella defnydd disgyblion o Gymraeg llafar**

- Mae gan arweinwyr ddyheadau clir ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion ac maent yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg yn llwyddiannus.
- Mae staff yn angerddol am yr iaith Gymraeg ac yn darparu cyfleoedd cyson i feithrin medrau llafar Cymraeg disgyblion. Defnyddir ystod dda o ddulliau gwobrwyo yn gyson i ddathlu ymdrech ac agweddau cadarnhaol disgyblion at ddefnyddio’r Gymraeg yn eu dysgu a’u chwarae.
- Mae arweinwyr yn trefnu gweithgareddau dysgu proffesiynol bwriadus sy’n datblygu hyder staff i gefnogi medrau llafar Cymraeg disgyblion yn llwyddiannus.

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

- Gyda chefnogaeth frwdfrydig y 'Criw Cymraeg', mae llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn ymdrechu i gyfathrebu yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at feithrin agweddau cadarnhaol disgyblion at yr iaith Gymraeg. Mae arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu ymhellach parodrwydd disgyblion i gyfathrebu yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau siarad Cymraeg yn llwyddiannus o'u mannau cychwyn. Wrth i fedrau disgyblion gryfhau, maent yn eu cymhwyso yn briodol ar draws ystod briodol o gyd-destunau.

**Sicrhau bod adborth athrawon yn helpu disgyblion i wella eu gwaith yn effeithiol**

- Mae athrawon wedi cydweithio'n bwrpasol i addasu'r trefniadau ar gyfer cynnig adborth ar waith disgyblion. Maent wedi cynnwys llais y disgybl yn y broses er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o ddibenion adborth.
- Yn gyffredinol, mae'r trefniadau ar gyfer rhoi adborth yn gyson ar draws yr ysgol gydag addasiadau pwrpasol ar gyfer sicrhau eu bod yn briodol i oed a chamau cynnydd disgyblion.
- Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio ystod addas o ddulliau cwestiynu ar gyfer adalw dysgu blaenorol, cadarnhau dealltwriaeth disgyblion ac i adnabod y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn briodol.
- Mae adborth amserol yn ystod gweithgareddau yn cefnogi llawer o'r disgyblion i wella eu gwaith. Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth ac yn gwella eu gwaith yn briodol. Ar y cyfan, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth ysgrifenedig yn anghyson. Mae arweinwyr yn ymwybodol fod gwaith pellach i'w wneud gyda datblygu'r agwedd hon.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6602176

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol